**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Andrew Morgan
Heddlu Trafnidiaeth Prydain

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl Andrew,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi'n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:

- Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn cydweithio â Chymdeithas y Plant a'r Ganolfan Genedlaethol ar Gydlynu Ymdrechion i Daclo Llinellau Cyffuriau yn ymgyrch #LookCloser. Pa mor effeithiol y mae'r ymgyrch hon wedi bod o ran codi ymwybyddiaeth am gamfanteisio'n droseddol ar blant a sut i hysbysu'r heddlu? Pa effaith gafodd hyn?

- Pa fesurau sydd ar waith i nodi ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio troseddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth, yn enwedig y rôl y mae Heddlu Trafnidiaeth

Prydain yn ei chwarae i fynd i'r afael â llinellau cyffuriau ar rwydwaith y rheilffyrdd (sy'n allweddol ar gyfer cludo cyffuriau)?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.